**CYNGOR SIR FYNWY**

**Nodiadau Canllaw ar gyfer Ffurflen Gais**
**am**
**Ganiatâd Dyfrffos Cyffredin**

Cyflwyniad:

Darllenwch drwy'r nodiadau cyfarwyddyd hyn a'r ffurflen gais yn ofalus cyn ei chwblhau.

- Os byddwch yn llenwi'r ffurflen gais yn gywir y tro cyntaf, caiff ei phrosesu'n gyflymach.
- Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn yn rhoi gwybodaeth i chi i'ch helpu i lenwi'ch cais am Ganiatâd Dyfrffos Cyffredin.
- Cyn llenwi'r ffurflen gais, rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â ni i gael cyngor ar eich cynnig.
- O dan y Ddeddf Draenio Tir 1991, mae angen caniatâd arnoch os ydych am adeiladu cwlfert neu strwythur (fel cored) i reoli llif y dŵr ar unrhyw cwrs dŵr cyffredin.
- Codir tâl o £50 am geisiadau ar gyfer Caniatâd Dyfrffos Cyffredin a wnaed o dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth yn y nodiadau cyfarwyddyd neu'r ffurflen gais, cysylltwch â ni drwy e-bost Flooding@monmouthshire.gov.uk neu drwy ap Fy Sir Fynwy.

Ar ôl llenwi'r ffurflen gais, dychwelwch hi drwy'r ddosbarthiad wedi'i gofnodi, ynghyd â'r holl ddogfennau ategol perthnasol, at:

At Sylw Swyddog Caniatâdau Dyfrffos Cyffredin
Rheoli Risg Llifogydd (Priffyrdd)
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Gallwch hefyd gyflwyno'ch cais yn electronig drwy e-bostio Flooding@monmouthshire.gov.uk

NODER: OS YDYCH YN LLENWI'R FFURFLEN DRWY GYFRWNG MICROSOFT WORD, BOB TRO Y BYDDWCH YN CLICIO AR DABL I'W LENWI, CLICIWCH 'LAYOUT', 'AUTOFIT', A 'FIXED COLUMN WIDTH' – BYDD HYN YN ATAL Y LLINELLAU RHAG SYMUD AC YN GWNEUD Y FFURFLEN YN HAWS I'W LLENWI.

3. Ymgeisydd

Mae angen i ni ddeall pwy sy'n gwneud y cais, felly os ydych yn gwneud cais fel:

| | |
|---|---|
| Cwmni | ewch yn syth i 3.1 |
| Fel unigolyn | ewch yn syth i 3.2 |
| Grŵp | ewch yn syth i 3.3 |
| Corff cyhoeddus | ewch yn syth i 3.4 |

3.1 Gwneud cais fel cwmni

Dylech lenwi'r adran hon os hoffech wneud cais am Ganiatâd fel Cwmni. Mae'n rhaid i chi gofrestru'n ffurfiol gyda Thŷ'r Cwmnïau. Gwnewch yn siŵr mai'r manylion a roddwch yw'r rhai sydd wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau. Bydd unrhyw Ganiatâd a gewch yn enw eich cwmni cofrestredig

3.2 Gwneud cais fel unigolyn

Dylech lenwi'r adran hon os ydych yn gwneud cais am Ganiatâd fel unigolyn.
Os mai chi yw'r person a enwir yn Adran 2 (prif gyswllt y cais) nid oes angen i chi lenwi'r adran hon na 3.5. Os nad chi yw'r unigolyn a enwir, mae angen i chi lenwi'r adran hon. Yr enw a roddwch fydd yr enw ar unrhyw Ganiatâd a roddwn.

3.3 Gwneud cais fel Grŵp

Llenwch yr adran hon os hoffech wneud cais fel elusen, grŵp o unigolion, clwb neu bartneriaeth. Os enwir prif gynrychiolydd y grŵp yn Adran 2. Bydd angen i chi gwblhau enw'r grŵp a'i statws o hyd (h.y. ai elusen, clwb ac ati yw'r grŵp. Gwnewch yn siŵr bod enw'r grŵp yn cael ei ddarparu gan mai dyma'r enw a fydd yn ymddangos ar y Caniatâd a roddwn.

3.4 Gwneud cais fel Corff Cyhoeddus

Llenwch yr adran hon os hoffech wneud cais am ganiatâd fel corff cyhoeddus megis Ymddiriedolaeth GIG.
A fyddech gystal â nodi'r math o gorff cyhoeddus.

3.Cyfeiriad

Os yw prif gyfeiriad busnes yr ymgeisydd yn y DU yr un fath â'r cyfeiriad a roddir yn Adran 2, nid oes angen cwblhau'r adran hon. Y cyfeiriad hwn a roddwch fydd y cyfeiriad y bydd eich Caniatâd wedi'i gofrestru iddo ac fe'i dangosir ar unrhyw Ganiatâd a roddwn.

4. Eich buddiant yn y tir

Mae angen i ni wybod pa fuddiant sydd gennych yn y tir lle bydd y gwaith yn cael ei wneud (er enghraifft ai chi yw'r tirfeddiannwr neu denant) Os bydd unrhyw waith yn cael ei wneud ar dir nad ydych yn berchen arno, bydd angen caniatâd arnoch gan bwy bynnag sy'n berchen ar y tir.

5. Disgrifiad a phwrpas y gwaith arfaethedig

Mae'n bwysig eich bod yn disgrifio'n gywir y cynigion ar gyfer gwneud y cais. A fyddech gystal â dweud wrthym beth yw diben y gwaith a nifer y strwythurau y mae angen caniatâd ar eu cyfer.

6. Cynlluniau a Thrychiadau

Er mwyn ystyried eich cynigion mae angen i ni dderbyn cynlluniau a lluniadau, wedi'u tynnu gan beiriannydd neu syrfëwr cymwys ac sy'n dangos y Datum Ordnans Newlyn (uchder uwchben lefel y môr). Dylid nodi nad ydym yn cynllunio'r gwaith ar eich rhan. Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â holl ofynion presennol rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli).

Bydd angen i chi ddarparu tri chopi o'r holl luniadau perthnasol. Mae'n rhaid i'r lluniadau beidio â bod yn fwy na maint A0 ac mae angen iddynt gynnwys y canlynol:

- Cynlluniau lleoliad

Mae'n rhaid i'r rhain fod ar raddfa briodol a bod yn seiliedig ar fap Arolwg Ordnans. Mae'n rhaid iddynt ddangos yn glir leoliad cyffredinol y safle lle bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei wneud a chynnwys nodweddion cyffredinol ac enwau strydoedd. Mae'n rhaid iddynt hefyd nodi'r cwrs dŵr a chyrff dŵr eraill yn yr ardal gyfagos.

- Lleoliad Safle (trefniant cyffredinol)

Mae'n rhaid i chi ddarparu cynllun o'r safle sy'n dangos:
Y safle presennol, gan gynnwys unrhyw gwrs dŵr; eich cynigion; safle unrhyw strwythurau a allai ddylanwadu ar hydroleg afonydd lleol, gan gynnwys pontydd, pibellau a dwythellau, ffyrdd o groesi'r cwrs dŵr, cwlfertau a sgriniau, argloddiau, waliau, gollyngfeydd ac yn y blaen; ac ysgolion  pysgod presennol a strwythurau a fwriedir i ganiatáu i bysgod fynd i fyny ac i lawr yr afon. Dylid tynnu'r cynllun i raddfa briodol y mae'n rhaid ei nodi'n glir.

- Croestoriadau

Os bydd gwaith yn tresmasu i unrhyw gwrs dŵr, dylech ddarparu croestoriad i fyny ac i lawr ffrwd y gwaith arfaethedig. Dylid tynnu croestoriadau fel pe baent yn edrych i lawr yr afon ar y cwrs dŵr a dylent gynnwys manylion nodweddion presennol ac arfaethedig a lefelau dŵr.

- Trychiadau Hydredol

Mae angen trychiadau hydredol wedi'u cymryd ar hyd llinell ganolog y cwrs dŵr. Mae'n rhaid i'r rhain ddangos y nodweddion presennol a'r rhai arfaethedig gan gynnwys lefelau'r dŵr, lefelau gwelyau a strwythurau. Dylent ymestyn i fyny ac i lawr yr afon o'r gwaith arfaethedig.

- Lluniadau Manwl

Bydd y rhain yn dangos manylion y nodweddion presennol ac arfaethedig fel y canlynol:
Y deunyddiau i'w defnyddio ar gyfer unrhyw strwythurau;
Lleoliad unrhyw bibellau gwasanaeth neu geblau gwasanaeth arfaethedig a allai effeithio ar gynnal a chadw'r cwrs dŵr yn y dyfodol;
Manylion unrhyw goeden, llwyni, gwrych, pwll neu wlyptir y gallai'r gwaith arfaethedig effeithio arnynt;
Manylion unrhyw blannu neu hau;
Argaeau a choredau (mae angen cynllun arnom sy'n dangos graddau'r dŵr sy'n cael ei gronni (a ddelir yn ôl) o dan amodau arferol a llifogydd fel y gallwn asesu'r effaith bosibl ar y tir wrth ymyl yr afon.
Mae'n rhaid i'r cynlluniau hefyd ddangos unrhyw ddraeniau tir yr effeithir arnynt.

7. Manylion adeiladu

Mae angen caniatâd ar wahân arnoch ar gyfer y gwaith parhaol ac unrhyw waith dros dro nad yw'n rhan o'r gwaith parhaol. Gallai gwaith dros dro gynnwys, er enghraifft, argaeau coffrau ??? (llociau dŵr) ar draws cwrs dŵr, neu ddargyfeirio dŵr dros dro tra bo gwaith yn cael ei wneud.
Ar gyfer unrhyw waith dros dro, mae angen i ni wybod sut rydych yn bwriadu gwneud y gwaith. Felly mae angen i chi anfon 'datganiad dull' atom sy'n cynnwys manylion y mesurau penodol yr ydych yn bwriadu eu cymryd i darfu cyn lleied â phosibl a lleihau unrhyw effeithiau annymunol tra bo'r gwaith yn cael ei wneud. Mae angen inni wybod pryd rydych yn bwriadu gwneud y gwaith a pha mor hir y credwch y bydd yn ei gymryd. Pan fyddwch yn cynllunio'r gwaith mae angen i chi sicrhau eich bod wedi caniatáu digon o amser inni ystyried eich cais.

8. Trwyddedau neu ganiatadau ychwanegol

Mae angen i chi ystyried a fydd eich cynllun yn cynnwys neu a allai effeithio ar unrhyw un o'r rhestrau.

Os byddwch yn ateb 'ydyw' i unrhyw un o'r cwestiynau, mae'n debyg y bydd angen trwyddedau neu ganiatadau ychwanegol arnoch gan Gyfoeth Naturiol Cymru cyn i chi ddechrau. Dylech wneud yn siŵr bod gennych ddigon o amser i gael yr holl gymeradwyaethau sydd eu hangen arnoch cyn i chi ddechrau gweithio. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gallai hyn ohirio'r gwaith.

9. Effeithiau ar yr Amgylchedd

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd, felly mae'n rhaid inni ystyried effeithiau amgylcheddol eich cynnig.
Efallai y bydd angen i chi gynnal arfarniad amgylcheddol i asesu effeithiau eich gwaith. Dylech gysylltu â ni cyn i chi anfon eich cais atom er mwyn i ni allu rhoi cyngor i chi ar hyn. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gallai'ch cais gael ei ohirio.
Dylai'r arfarniad amgylcheddol nodi ac ystyried yr holl effeithiau tebygol ar yr amgylchedd. Dylech ystyried yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y mae'r gwaith yn eu cael ar safleoedd a nodweddion diddordeb a rhywogaethau o werth penodol.
Dylech gynnwys unrhyw fesur penodol rydych yn ei gynllunio i sicrhau cyn lleied â phosib o ymyrraeth a lleihau unrhyw effeithiau annymunol tra bo'r gwaith yn cael ei wneud.
Rydym yn nodi unrhyw gyfleoedd i chi wella gwerth amgylcheddol y safle. Gall hyn gynnwys creu nodweddion dŵr, plannu coed a llwyni a fyddai fel arfer yn tyfu ar y safle, darparu blychau nythu adar neu greu mannau cynaliadwy i fywyd gwyllt fyw ynddynt.
Os ydych, fel rhan o ganiatâd cynllunio, wedi gofyn am arfarniad amgylcheddol, mae'n rhaid i chi ei anfon atom gyda'r holl ddogfennau ategol eraill sydd eu hangen arnom.
Os yw'ch safle'n dod o fewn safle cadwraeth natur neu'n gysylltiedig ag ef, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i drafod eich cynigion cyn i chi anfon eich cais atom.
O dan y Rheoliadau Cynefinoedd Ewropeaidd, mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw Caniatâd Dyfrffos Cyffredin yn cael effaith negyddol uniongyrchol nac anuniongyrchol ar unrhyw safle a bennir yn y rheoliadau, gan gynnwys:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Penodol (SDdGPoedd);
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd);
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAoedd);
- Safleoedd RAMSAR rhestredig; a
- Henebion Rhestredig

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd,mae'n rhaid i ni ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (neu CADW yn achos henebion).
Efallai yr hoffech gysylltu â'r sefydliadau hyn eich hun i gael eu barn ar eich cynnig

10. Caniatadau Awdurdodau Eraill

A fyddech gystal â rhoi manylion unrhyw ganiatadau cynllunio sydd gennych neu rydych yn gwneud cais amdanynt sy'n ymwneud â'r cynnig hwn.

11. Cynnal y Strwythur

Rydym angen gwybod pwy fydd yn gyfrifol am gynnal y strwythur yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi gorffen y gwaith. Mae'n rhaid i'r manylion gynnwys cyfeiriadau a manylion cyswllt addas e.e. cyfeiriadau ffôn/e-bost ac ati.

12. Ffioedd

Y ffi am Ganiatâd Dyfrffos Cyffredin yw £50. Gellir talu drwy'r opsiynau canlynol:

- Siec (yn daladwy i Gyngor Sir Fynwy, i'w gynnwys gyda'ch cais)
- Cerdyn credyd/debyd (Swyddfa Incwm: 01633 644355)
- Trosglwyddiad Banc (Cyngor Sir Fynwy, 20-18-23, 13996565)

A fyddech gystal â nodi'n glir bod eich taliad am Ganiatâd Dyfrffos Cyffredin fel y gellir neilltuo'r arian yn gywir, fel arall gallai hyn arwain at oedi wrth brosesu'ch cais.

13. Rhestr wirio

Rydym wedi darparu rhestr o eitemau i chi wirio pa eitemau sy'n berthnasol i'ch cais a dylid eu cynnwys.

Dylid nodi, os yw'r cais yn cael ei gyflwyno'n electronig, mai dim ond 1(un) set o luniau a dogfennau ategol y mae angen eu darparu.

14. Datganiad

Mae angen i chi lofnodi'r datganiad er mwyn cadarnhau, hyd y gwyddoch, fod y wybodaeth rydych wedi'i darparu, gan gynnwys y map ac unrhyw ddogfennau ategol, yn gywir. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gais nad yw wedi'i lofnodi.

Os ydych yn gwneud cais fel cwmni sydd ag ymddiriedolwyrmae'n  rhaid i bob ymddiriedolwr lofnodi'r datganiad.
Os ydych yn defnyddio cwmni cyfyngedig,mae'n rhaid i ysgrifennydd cwmni neu gyfarwyddwr lofnodi'r datganiad.

15. Deddf Diogelu Data 2018 (Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data)

Byddwn yn prosesu'r wybodaeth a ddarperir gennych fel y gallwn ymdrin â'ch ymholiad.

Gallwn hefyd brosesu neu ryddhau'r wybodaeth i:

Ymgynghori â'r cyhoedd, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau eraill (er enghraifft, y Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;

Cynnal ymchwil i faterion amgylcheddol a datblygu atebion i broblemau;

Atal unrhyw un rhag torri cyfraith amgylcheddol, ymchwilio i achosion lle amgylcheddol gall y gyfraith fod wedi'i thorri, a chymryd unrhyw gamau sydd eu hangen;

Asesu a yw cwsmeriaid yn fodlon â'n gwasanaeth a'i wella lle bo angen;
A

Ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2017 (os yw'r Ddeddf Diogelu Data yn caniatáu).

16. Y camau nesaf

A fyddech gystal â dychwelyd y ffurflen gais ynghyd â'r dogfennau ategol at;

At Sylw Swyddog Caniatâdau Dyfrffos Cyffredin
Rheoli Risg Llifogydd (Priffyrdd)
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Gallwch hefyd gyflwyno'ch cais yn electronig drwy e-bostio Flooding@monmouthshire.gov.uk

Os ydych yn hapus gyda'n gwasanaeth, os gwelwch yn dda, dywedwch wrthym. Mae'n ein helpu i nodi arfer dda ac yn annog ein staff. Os nad ydych yn hapus â'n gwasanaeth, dywedwch wrthym sut y gallwn wella.